

MAWRTH 2026

MIN Y TRAETH

BWLETIN YSGOL EIFIONYDD



GAIR GAN Y PENNAETH

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus dros dymor hynod brysur a llwyddiannus. Mae'r tymor wedi bod yn llawn profiadau cyfoethog o lwyddiannau yn yr Eisteddfod a dathliadau diwylliannol i weithgareddau creadigol, gwyddonol a chwaraeon. Rydym yn falch iawn o ymdrech, ymrwymiad ac agwedd gadarnhaol ein disgyblion, sydd wedi manteisio ar bob cyfle. Mae cyfraniad ein staff a'n cymuned yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

Mae Dewi Rhys Jones



Llongyfarchiadau i Ethan Lodge a Sam Cok (Blwyddyn 11) am gymryd rhan mewn cystadleuaeth Rasio STEM Gogledd Cymru fel rhan o'u cwrs Peirianeg yng Ngholeg Meirion-Dwyfor.

Bu eu tîm, Porthmadog Bulldogs, yn llwyddiannus iawn gan ennill y wobwr am y car a ddyluniwyd orau. Camp arbennig a phrofiad gwerthfawr iawn iddynt wrth ddatblygu eu sgiliau peirianeg a STEM.

Gweithdai Relic gyda Blwyddyn 8

Cawsom weithdai arbennig yn ddiweddar gyda chwmni Relic o Fethesda, lle cafodd disgyblion Blwyddyn 8 brofiad o weithio gyda phlastig wedi'i ail-brosesu. Cafodd pawb y cyfle i greu eitem wedi'i chwythfowldio o blastig wedi'i ailgylchu, yn ogystal â chael tro ar dorri plastig yn fân, a didoli gwahanol fathau o blastig er mwyn deall sut mae deunyddiau'n cael eu hailbrosesu.

Roedd y gweithdai yn gyfle gwyb i ddysgu am bwysigrwydd yr economi gylchol, cynaliadwyedd, a'r 6R, ac i weld sut gall dylunio a thechnoleg helpu i leihau gwastraff a diogelu'r amgylchedd.

Gwaith yr Adran Dylunio a Thechnoleg y Tymor Hwn

Mae disgyblion ar draws yr adran Dylunio a Thechnoleg wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn datblygu ystod eang o sgiliau.

Blwyddyn 9: Mae'r grwpiau wedi cylchdroi rhwng gwahanol feysydd, gan gynnwys profiadau coginio, gwnio het bwced, a gwehyddu, er mwyn cael profiad o wahanol dechnegau a deunyddiau.

Blwyddyn 8: Mae disgyblion wedi bod yn gweithio ar brosiect gwisg wedi'i uwchgylchu, yn ogystal â dylunio logo digidol ar gyfer Portmeirion, gan gyfuno creadigrwydd gyda sgiliau digidol.

Blwyddyn 7: Mae'r disgyblion wedi bod yn cwblhau eu prosiect tecstilau cyntaf, sef gwneud *snood*, gan ddysgu sgiliau sylfaenol defnyddio peiriant gwnio a gweithio gyda ffabrig. Mae'r holl brosiectau yn datblygu sgiliau dylunio, gwneud, creadigrwydd a datrys problemau.



Cystadleuaeth Niwtral: Gwyddoniaeth

Bu disgyblion Blwyddyn 8 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth niwtral yn ystod gwers Wyddoniaeth ddiweddar. Roedd y disgyblion yn defnyddio asid ac alcali i geisio cyflawni niwtraliad cywir, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o adweithiau cemegol mewn ffordd ymarferol a hwyliog. Roedd y gweithgaredd yn gyfle gwyb i atgyfnerthu sgiliau gwyddonol, gweithio'n ofalus gyda chyfarpar labordy a chymhwyso gwybodaeth mewn sefyllfa gystadleuol.



Hunanbortreadau Disgyblion 7T

Yn dilyn ysgrifennu hunanbortread yn y gwersi Cymraeg, mae disgyblion 7T wedi creu llun yn steil Oriel Odl, gan gyflwyno eu hunain mewn ffordd greadigol.

Roedd y gweithgaredd yn gyfle i gyfuno ysgrifennu a chelf, gan ddatblygu sgiliau iaith a mynegiant personol wrth gyflwyno eu hunaniaeth mewn ffurf weledol. Da iawn 7T!

Saesneg Blwyddyn 8: Gwrthdaro

Bu disgyblion Blwyddyn 8 yn y gwersi Saesneg yn edrych ar arteffactau hanesyddol fel rhan o'r thema gwrthdaro. Cafodd y disgyblion gyfle i weld bidog o Ryfel y Crimea, medal o'r Ail Ryfel Byd, a ffon swagger o'r Corfflu Meddygol o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd cael gweld arteffactau go iawn yn helpu'r disgyblion i ddeall y cyd-destun hanesyddol yn well, ac i ysbrydoli eu gwaith darllen ac ysgrifennu ar y thema gwrthdaro.



Turnament Gêm 24

Cynhaliwyd cystadleuaeth Gêm 24 yn ystod gwersi Mathemateg ym mis Rhagfyr 2025. Aeth yr 17 ddaeth i'r brig o ddosbarthiadau Blwyddyn 7 ymlaen i'r rownd derfynol, lle cafwyd cystadleuaeth agos a chyffrous. Roedd pawb wedi ymgymryd â'r her yn arbennig o dda, gan ddangos sgiliau rhifedd a datrys problemau cryf.

Daeth y canlynol i'r brig:

1af – **Simi Cook** (7P)

2il – **Siwan Jones** (7P)

3ydd – **Griff Gray** (7T)

4ydd – **Guto Hicks** (7M)

Dosbarthiadau Meistroli Mathemateg

Aeth Lili Lewis, Ellen Baillot a Mathew Washington o flwyddyn 9 i Ysgol Friars, Bangor i gymryd rhan mewn cwrs Meistroli Mathemateg a drefnwyd gan y Sefydliad Brenhinol. Cynhaliwyd gweithdai gan arbenigwyr ym maes Mathemateg ac addysg, gan gyfuno theori gyda gweithgareddau rhyngweithiol a heriol.

Roedd y profiad yn gyfle gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau mathemategol, gweithio gyda disgyblion o ysgolion eraill, a mwynhau heriau newydd mewn awyrgylch gadarnhaol a chefnogol.



Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau mawr i Gwern Pugh, Eleri Hinde a Deio Rhys ar eu llwyddiannau diweddar. Bu Gwern yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Eryri, gan ennill yn yr Unawd Piano ac Offer Taro, tra bu Eleri yn fuddugol gyda'i gwaith celf yn Eisteddfod y Felinheli. Pob lwc i Gwern yn y Genedlaethol ym Môn ym mis Mai gyda'r Unawd Piano. Llongyfarchiadau mawr iawn hefyd i Gwern a Deio Rhys am eu llwyddiant arbennig yn Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

Llongyfarchiadau hefyd i Eleri Hinde (Blwyddyn 8) ar ennill gyda'i gwaith celf yn Eisteddfod Garndolbenmaen yn ddiweddar. Diolch yn fawr i'r holl ddisgyblion eraill a gymerodd ran - daliwch ati i greu! Dyma enghraifft o waith Eleri:

Daeth Parti Bechgyn blwyddyn 7 a'r Parti Llefaru blwyddyn 7-9 yn drydydd yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ym Mrynrefail ddydd Sadwrn diwethaf. Da iawn chi gyd am gynrychioli'r ysgol.

Perfformiadau a Dathliadau

Diolch o galon i Deio, Gwern, Gwawr, Swyn ac Anna am ddiddanu cangen Merched y Wawr, Porthmadog ar achlysur dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd perfformiadau ar y piano, y corn a'r gitâr, ynghyd â monolog. Rydym yn hynod falch ohonoch.

Dydd Miwsig Cymru

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, trefnwyd gweithgareddau arbennig yn yr ysgol, gan gynnwys disgo i ddisgyblion Blwyddyn 7 a 8 gyda DJ Owain Llŷr, ynghyd â diwrnod di-wisg ysgol er mwyn codi arian i gynnal mwy o weithgareddau tebyg yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor Creadigol hefyd wedi bod yn dewis traciau cerddorol pob wythnos yn arwain at y dathliadau, gan rannu cerddoriaeth Gymraeg gyda'r ysgol gyfan.

Y Fari Lwyd

Yng ngwersi Celf blwyddyn 8, mae disgyblion wedi bod yn gweithio ar dechneg lino, gan ddysgu sut i greu print trwy gerfio a gwasgu inc i gynhyrchu patrymau a lluniau unigryw wedi eu hysbyrdoli gan y Fari Lwyd a gwaith yr artist Efa Lois a Ruth Jen. Dyma enghraifft o waith hyfryd Gethin Lewis.



Deio, Gwern, Gwawr, Swyn ac Anna



DJ Owain Llŷr yn diddanu



Parti Llefaru blwyddyn 7-9




Parti Bechgyn Blwyddyn 7

Diwrnod Cofio'r Holocaust

Yn ddiweddar, nododd Ysgol Eifionydd Ddiwrnod Cofio'r Holocaust. Cafodd y disgyblion y fraint o fynychu cyflwyniad byw gan **Max Snijders**, goroeswr yr Holocaust, a rannodd yn ddewr ei brofiadau personol o'r cyfnod trasig hwn mewn hanes.

Yn ystod amser cinio, daeth y disgyblion ynghyd i dalu teyrnged, dyfnhau eu dealltwriaeth o'r Holocaust, ac i fyfyrio ar y bywydau a gollwyd. Fel rhan o'r coffáu, ysgrifennodd y disgyblion negeseuon er cof am y rhai a fu farw, gan sicrhau bod eu straeon yn cael eu cofio a'u hanrhydeddu.





Criw o flwyddyn 7 yn mwynhau brecwast am ddim!

Wythnos Iechyd Meddwl

Cytunodd y Cyngor Ysgol i gefnogi **Wythnos Iechyd Meddwl** trwy drefnu amrywiaeth o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion. Cynhaliodd Mr Crowe sesiynau yn ystod gwasanaethau, ynghyd â sesiynau penodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10. Paratowyd sleidiau gan Miss Alaw Roberts yn trafod pwysigrwydd bwyta brecwast iach, ac o ganlyniad darparwyd brecwast am ddim fore dydd Llun i unrhyw ddisgyblion oedd ei angen.

Cynhaliwyd hefyd nifer o weithgareddau codi arian ac ymwybyddiaeth yn ystod yr wythnos:

- Gwerthu crempogau ar ddydd Iau
- Pryd cinio Tsieineaidd arbennig a hynod flasus yn y cantin ar ddydd Iau
- Gwerthu lolïau iâ ar ddydd Gwener

Prif ffocws gwersi ABACh yn ystod yr wythnos hon oedd cadw'n saff ar-lein, gan bwysleisio ar bwysigrwydd diogelwch digidol a lles emosiynol.

Paratôdd tîm o'r Cyngor Ysgol i chwarae gêm bêl-rwyd yn erbyn y staff amser cinio ar ddydd Gwener, a chafwyd llawer o hwyl.

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gweithgareddau. Roedd yr wythnos yn gyfle gwerthfawr i ddysgu mwy am bwysigrwydd gofalu am iechyd meddwl a lles.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Diolch i elusen Cadwch Gymru'n Daclus, mae pecyn gardd ffrwythau fechan wedi cyrraedd yr ysgol. Gyda chymorth criw Y Dref Werdd i osod yr offer, mae'r planhigion wedi eu plannu ac yn eu lle, ac rydym yn edrych ymlaen at eu gweld yn tyfu gyda gobaith am dywydd braf a chynnes.

Diolch yn fawr i Dawn Jones, aelod o'r Ymatebwyr Cyntaf, Porthmadog, am ddod i hyfforddi disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 11 i ddefnyddio diffibriliwr (AED) ac i ymarfer sgiliau achub bywyd sylfaenol. Roedd hwn yn brofiad gwerthfawr iawn i'r disgyblion.

Cafwyd hefyd nifer o sesiynau pwysig i godi ymwybyddiaeth ymhlith gwahanol flynyddoedd:

- Blwyddyn 7 – Sesiwn gan Manon Davies o'r Ganolfan Trais a Chamdrin Rhywiol (Gogledd Cymru) i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol. Ariannwyd y sesiwn gan Heddlu Gogledd Cymru.
- Blwyddyn 11 – Cyflwyniad gan PC Rhiannon Wright ar ddiogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys trafodaeth am stori drasig ger Rhuthun, er mwyn annog pobl ifanc i wneud penderfyniadau diogel.
- Blwyddyn 9 – Cyflwyniad gan PC Rhiannon Wright ar gam-drin domestig, yn trafod ymwybyddiaeth, diogelwch a ble i gael cymorth.

Roedd y sesiynau hyn yn gyfle pwysig i ddatblygu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a sgiliau bywyd ymhlith y disgyblion.

Adran Addysg Gorfforol – Llwyddiannau a Gweithgareddau


Mae'r tymor wedi bod yn un prysur iawn i'r Adran Addysg Gorfforol, gyda disgyblion yn cystadlu ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon. Mae disgyblion wedi dechrau mwynhau pickleball yn yr ysgol y tymor hwn, gyda sesiynau ymarfer yn cael eu cynnal amser cinio ddydd Iau. Mae badminton hefyd yn boblogaidd iawn, gyda sesiynau yn cael eu cynnal amser cinio ddydd Gwener.



Llongyfarchiadau mawr i Eva Mulholland ac Ella Russell am gystadlu mewn cystadleuaeth nofio yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Arabella Parsons a Paige Mulholland ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth gymnasteg North Prelims 2026 yn Deeside dros y penwythnos. Enillodd Arabella dair medal ail safle ynghyd â thlws am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Enillodd Paige ddwy fedal aur ac un arian.



Disgyblion o'r ysgol a chriw Y Dref Werdd wrthi yn brysus yn plannu planhigion o becyn garddio gan Cadwch Gymru'n Daclus



Disgyblion blwyddyn 7 yn falch o'u tystysgrifau yn dilyn hyfforddiant defnyddio diffibrilwr gan Dawn Jones o Ymatebwyr Cyntaf Porthmadog



Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 7, 8, 9 a 10 gymryd rhan yn nhwrmament 5-bob-ochr yr Urdd, lle llwyddodd timau'r merched a'r bechgyn i gyrraedd yr wyth olaf. Da iawn chi gyd.



Llongyfarchiadau i Scarlett Harvey, sydd yn parhau i fod yn llwyddiannus ym maes pêl-rwyd, ac sydd bellach yn chwarae i dîm yng Nghaer. Camp arbennig, a rydym yn falch iawn o'i hymroddiad a'i chynnydd.



Da iawn i Elsa-Jane, Mari Evans, Lottie Jenkins a Siwan Jones sydd wedi bod yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd dros y tymor diwethaf. Mae Elsa yn chwarae i dîm dan 16, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yng ngemau Gogledd Cymru ac wedi gorffen yn ail yn y tabl.

Llongyfarchiadau mawr i Max (Blwyddyn 8) ar ei lwyddiant yn pasio ei 2il Dan Belt Du Karate. Mae Max bellach yn helpu hyfforddi eraill ac yn cael ei adnabod fel Sempai, sef uwch fentor. Camp arbennig.

Braf oedd gweld yr ysgol yn cystadlu mewn twrnament hoci yn Efailnewydd, lle enillodd y genod un gêm, cyfartalu un, a cholli dwy. Cafwyd bore braf o gystadlu a mwynhau'r chwaraeon. Da iawn chi genod.



Bu merched Blwyddyn 8 yn cystadlu mewn cystadleuaeth ddawns yn Stoke, gyda llwyddiant arbennig i Elenid, a ddaeth yn 3ydd allan o 8 tîm, ac i Grace a Scarlett, a ddaeth yn 2il. Pob lwc i'r tair sy'n mynd ymlaen i gystadleuaeth Brydeinig nesaf.



Prynhawn difyr i flwyddyn 7 ac 8 dydd Iau, 19eg o Fawrth yng nghwmni Mei Gwynedd mewn sesiwn codi canu yn Y Ganolfan yn y dref. Diolch i Grant y Gymraeg am y nawdd a'r profiad gwyh i'n disgyblion.



Cyngor Cymreictod a Chlwb Cymru

Yn y cyfarfod diweddar o Glwb Cymru'r ysgol cawsom gwmni Liam Evans, newyddiadurwr sydd yn gweithio i BBC Cymru ac yn wyneb cyfarwydd ar raglen Newyddion S4C. Bu'n trafod ei yrfa a'i brofiadau amrywiol yn gohebu'r newyddion o wledydd pell fel UDA ac Israel i ddigwyddiadau mwy lleol. Diolch yn fawr iawn i Liam am ei amser, roedd y disgyblion wedi dysgu llawer ac wedi mwynhau.

Ymweliad Liam Evans, newyddiadurwr BBC Cymru

Ar ôl gwrandao ar gyflwyniad Liam Evans y newyddiadurwr sydd yn gweithio i BBC Cymru fe gefais brofiad diddorol iawn. Fel bachgen sydd eisio bod yn newyddiadurwr yn y dyfodol, roedd gwrandao ar ei eiriau ac ei brofiadau roeddwn i fwy sicr fy mod eisio bod yn newyddiadurwr. Roedd clywed am ei amryw brofiadau ar draws y byd, o Ben Llŷn i Galiffornia roedd y gwaith teithio roedd Liam Evans wedi bod arno yn wirioneddol ddiddorol. Yn ogystal â hyn roedd gwrandao ar y pethau sy'n digwydd ty ôl y sgrin hefyd yn ddiddorol ac sut mae technoleg i newyddiadurwyr wedi newid dros y blynyddoedd- o orfod cael fan gyfan i ddefnyddio ffôn arferol. Ar y cyfan, ar ôl gwrandao ar Liam Evans nid yn unig bod y teithio yn ddiddorol ond mae'r holl broses o fod yn newyddiadurwr wedi fy ysbrydoli i. Diolch i Liam am ddod i ymweld â Chlwb Cymru Ysgol Eifionydd.

Deio Rhys Blwyddyn 11



Gwion, Kian a Deio gyda Liam Evans



Bechgyn blwyddyn 9 a 10 yn mwynhau'r cinio Dydd Gwyl Dewi

Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi 2026

Ar ddechrau mis Mawrth cafwyd cyfle i ddathlu ein nawddsant drwy amrywiol ffyrdd. Cafwyd gwasanaeth ar y thema dan arweiniad rhai aelodau o'r Cyngor Cymreictod, cinio blasus yn y ffreutur a Chlwb Cymru misol yn addurno bisgedi Cymreig.

Am y tro cyntaf eleni cafwyd gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi o'r ysgol i fyny at yr Harbwr ac yn ôl. Roedd yn brofiad arbennig i'r disgyblion wrth iddynt ddathlu ei hunaniaeth a'u treftadaeth, drwy chwifio baneri a morio canu yn y Gymraeg! Diolch Miss Alaw Roberts o'r adran Dechnoleg am baratoi cacennau cri ar ein cyfer erbyn i ni ddychwelyd.

Digwyddiad Pontio Grant y Gymraeg 2026.

Yn ystod mis Chwefror cafodd disgyblion Bl.5 a 6 ysgolion cynradd ein dalgylch gyfle i fynychu sesiynau pontio yn Ysgol Eifionydd gyda ffocws ar Ddydd Gŵyl Dewi. Roedd y sesiynau yma mewn cyd-weithrediad â phroject Grant y Gymraeg y dalgylch. Ein nod oedd rhoi cyfle i'r disgyblion cynradd drafod eu hunaniaeth a'u treftadaeth drwy greu llinell bersonol i'w hysgol ar gyfer eu baner gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi. Yn dilyn hyn cafodd y disgyblion gyfle i gyd-weithio gyda'r adran i-Greu ar gyfer addurno eu baner eu hunain ar gyfer eu gorymdaith unigryw nhw.



Blwyddyn 7 a disgyblion ysgolion cynradd y dalgylch yn chwifio eu baneri yn falch yn ystod eu gorymdeithiau Dydd Gŵyl Dewi.



Pasg Hapus i Bawb!

Diolch i bawb am dymor prysur llawn gwaith caled ac ymroddiad yn Ysgol Eifionydd. Gobeithiwn y bydd pawb yn mwynhau gwyliau'r Pasg! Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl ar ôl y gwyliau, yn barod am dymor newydd o waith. **Pasg hapus i holl gymuned yr ysgol!**

Dyddiadau Pwysig: Ailagor i Ddisgyblion: Dydd Llun, 13eg o Ebrill, 8:55yb